

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer  
Medi'r 9fed, 2019**

**Presennol:** Tyly Roberts, (Cadeirydd), Eleri Jones, Emyr Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriad Clwyd Davies.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mehefin 24, 2019.
5. **Materion yn codi:** Cyflwr Eglwys Santes Gwawr – cytunwyd i anfon adroddiad y Cynghorwyr ar gyflwr yr Eglwys at Barc Cenedlaethol Eryri i dynnu sylw at hyn.
6. **Adroddiad Cynghorydd Gwynedd,** Alan Jones Evans. Cyfeiriodd at y gwaith da a wnaethpwyd eleni ar docio ochrau'r ffyrdd gan y contractwyr lleol. Mae'r Cynghorydd mewn trafodaethau gydag Adran y Priffyrdd i newid ac addasu gweithdrefn tocio ffyrdd; ei ddymuniad yw gweld tynnu allan o'r cytundeb yr ardaloedd hynny lle mae defaid yn pori at ymyl y ffordd, gan ganiatáu ychwanegu tocio i'r ardaloedd sydd mwyaf eu hangen.

Fel arfer mae'r safle biniau ym maes parcio'r llyn yn daclus, ond ar adegau prysur mae pethau'n gallu mynd yn flêr iawn. Bydd yn siarad eto gyda'r swyddog perthnasol am osod camera cylch cyfyng yno.

Nid ydyw'r camera mesur cyflymder wedi ei osod ym mhentref Llangywer fel yr addawyd; bydd y Cynghorydd yn trafod hwn eto, gan atgoffa'r Swyddogion mai yn yr haf y mae'r angen mwyaf.

Derbyniwyd cwynion fod cŵn yn cael eu gollwng i faeddu'r fynwent yn Llangywer. Dengys hyn ddiffyg parch difrifol tuag at deuluoedd y sawl sy'n gorwedd yno, a diffyg ystyriaeth o'r sawl sy'n gweithio yno hefyd. Cytunwyd i roi gwybod i'r Swyddog Gorfodaeth.

Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei waith a'i adroddiad.

7. **Bash Mawr Y Bala** - cytunwyd i ofyn i Barc Cenedlaethol Eryri drefnu cyfarfod i adolygu digwyddiad mis Mehefin gan y bu trafferthion mawr ar y dydd Sadwrn, gan iddi gymryd awr i deithio o Lanuwchllyn i Langywer i un aelod o'r Cyngor, a thuag at ddiwedd y digwyddiad ar y dydd Sul.
8. **Materion ariannol:** Rhannwyd manylion y sefyllfa ariannol gyfredol. Nodwyd fod taliad am ail doriad y fynwent wedi ei wneud yn unol â chyfarwyddyd y Cyngor. Derbyniwyd ail hanner y praesept. Derbyniwyd ffi am waith gosod carreg yn y fynwent.

**Ymholiad BDO:** Teimla'r aelodau fod y cais i sicrhau nad oedd pobl gyda'r cyfenw Jones yn perthyn i'r Archwilydd Mewnol yn dderbyniol. Teimlwyd fod y cais yn nawddoglyd, yn sarhaus ohonom fel Cymry, ac yn ymylu ar fod yn hiliol. Roedd hefyd yn bwrw sen ar yr Archwilydd

mewnol, sy'n gyfrifydd proffesiynol ac yn bennaeth yr adran yng Nghyngor Gwynedd. Cyfarwyddwyd y Clerc i gwyno am hyn.

9. **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:** Tynnwyd sylw at sbwriel a luchiwyd o gar rhwng Tŷ Isa' â Rhiw Ceri. Dywedodd y Cyngorydd y byddai'n trefnu ei glirio.

Roedd pryder am barcio ar hyd ochr y ffordd ar adegau pan oedd y maes parcio yn Llangywer yn llawn ar adeg Gŵyl y Banc (neu i osgoi talu ar adegau eraill), gan wneud y ffordd yn rhy gul i gerbydau megis injan dân. Cytunwyd i fonitro a thynnu lluniau fel tystiolaeth pan ddigwydd hyn yn y dyfodol fel tystiolaeth o'r angen i gamau gweithredu. Sylwyd fod *motor homes* yn gyson yn aros dros nos mewn cilfachau ac mewn meysydd parcio sy'n perthyn i'r Parc. Cytunwyd i holi am y materion hyn.

Nodwyd y tyllau sydd yn y ffordd ar Rhiw Ceri ac addawodd y Cyngorydd i dynnu sylw'r Adran Priffyrdd.

10. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr.

11. **Gohebiaeth:**

- i. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Cymeradwywyd cais NP5/70/140B i drosi allandy yn rhan o eiddo preswyl ac adeiladu estyniad unllawr – Bryn Bedwog.

**Derbyniwyd a thrafodwyd** Cynllun Datblygu Parc Cenedlaethol Eryri.

**Hyfforddiant Parc Cenedlaethol Eryri:** Nodwyd derbyn gwahoddiad i fynychu hyfforddiant ym mis Hydref.

Enwebwyd Geraint Roberts ac Emyr Jones fel cynrychiolwyr i fynychu Pwyllgor Ymgynghorol Llyn Tegid.

- ii. **Cyngor Gwynedd:** derbyniwyd gwybodaeth am uwchraddio ffyrdd, a rhybudd o waith ar bont Rhiwaedog.
- iii. **Llywodraeth:** Trafodwyd y ddyletswydd newydd i adrodd ar fioamrywiaeth a chytunwyd y gellid adeiladu ar yr hyn a wneir eisoes yn y fynwent, trwy adael i flodau'r gwanwyn hadu a thrwy dderbyn cymorth Parc Cenedlaethol Eryri i greu cynefin addas i'r creaduriaid a'r llystyfiant sydd yno.
- iv. **Un llais Cymru:** Derbyniwyd gwybodaeth am Raglen Hyfforddiant.
- v. **Arall:**
- i. Derbyniwyd gwybodaeth am Rali Cymru GB yn Hirnant ar 4/10/19.
- ii. Nodwyd derbyn pecyn o wybodaeth gan y Farwnes Eluned Morgan AC

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Tachwedd 12, 2019

*Amser gorffen: 8.45pm*